

**TRWYDDEDU BUSNESAU RHYW**

**CANLLAWIAU POLISI**

# TRWYDDEDU BUSNESAU RHYW

## CYNNWYS

CYFLWYNIAD .....	2
MATHAU O DRWYDDEDAU I FUSNESAU RHYW.....	4
CANLLAWIAU POLISI.....	5
ATODIAD A - DIFFINIADAU .....	9
ATODIAD B - AMODAU SAFONOL .....	11
ATODIAD C - RHESTR FFÏOEDD.....	17
ATODIAD D - CYNLLUNIAU .....	18

## **Cyflwyniad**

1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mabwysiadu atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (fel y'i diwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009) fel y gall reoleiddio siopau rhyw, sinemâu rhyw, a lleoliadau adloniant rhyw yn y Sir.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Fusnesau Rhyw Trwyddedig yn y Sir.

1.2 Diben y polisi hwn yw:-

- tynnu sylw at ddull gweithredu'r Awdurdod,
- amddiffyn hawliau ac iechyd a diogelwch y cyhoedd, gweithwyr, preswylwyr, busnesau bychain, grwpiau lleiafrifol a grwpiau agored i niwed, a
- sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd cyson a thryloyw.

1.3 Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rhesom ystyriaeth i ofynion cyfreithiol Deddf 1982 a'n dyletswyddau dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, er mwyn cymryd pob cam rhesymol i leihau trosedd ac anhrefn yn y Sir;

1.4 Bwriedir i'r polisi:-

- (i) fod yn anwahaniaethol
- (ii) gael ei gyfiawnhau gan reswm tra phwysig sy'n ymwneud â budd y cyhoedd
- (iii) fod yn gymesur â'r amcan o ran budd y cyhoedd
- (iv) fod yn glir a diamwys
- (v) fod yn wrthrychol
- (vi) gael ei gyhoeddi ymlaen llaw, a
- (vii) bod yn dryloyw a hygyrch.

## **Sir Gaerfyrddin**

1.5 Yn ardal wledig yn bennaf, mae gan Sir Gaerfyrddin sylfaen amaethyddol gref gyda 'chadwyn' o brif drefi marchnad sy'n diwallu anghenion cymunedau yn yr ardaloedd gwledig hynny. De-ddwyrain Sir Gaerfyrddin yw'r rhan fwyaf dwys ei phoblogaeth o'r Sir, ac mae'n cael ei nodweddu gan gyn-gymunedau diwydiannol clôs. Mae'r mathau gwrthgyferbyniol hyn o amgylchedd yn cynnig cyfleoedd a heriau gwahanol iawn.

## **Integreiddio â Statudau Eraill**

1.6 Cynghorir ymgeiswyr am Drwyddedau Adloniant Rhyw i roi ystyriaeth i weithgareddau a gynhelir yn yr adeilad a allai fod yn drwyddedadwy dan ddeddfwriaeth arall, fel Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisiâu mewn perthynas â'i swyddogaethau trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 a chynghorir ymgeiswyr i roi ystyriaeth i'r dogfennau polisi hynny.

1.7 Hefyd, atgoffir ymgeiswyr o'r angen i gael caniatâd statudol arall, fel caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu, ac ati, a chydymffurfio â threfnau statudol eraill, fel Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

1.8 Fel corff cyhoeddus, mae dyletswydd arnom i ddiogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ei weinyddu ac, i'r perwyl hwn, gallwn ddefnyddio gwybodaeth a roddir gan ymgeiswyr i atal

a chanfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.

### **Manylion Cyswllt**

Yr Adain Drwyddedu  
Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

Rhif ffôn: 01267 234567

e-bost : [diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk)

## **Mathau o drwyddedau i fusnesau rhyw**

2.1 Ar hyn o bryd, mae adeiladau busnesau rhyw yn cwmpo i un o dri chategori:

- (i) sinema ryw;
- (ii) siop ryw;
- (iii) lleoliad adloniant rhyw;

### **SIOP RYW**

2.2 Ystyr Siop Ryw yw unrhyw adeilad a ddefnyddir ar gyfer busnes sy'n cynnwys i raddau arwyddocaol gyflenwi neu arddangos eitemau rhyw.

Ceir diffiniad llawn yn Atodiad A ar dudalen 9.

### **SINEMA RYW**

2.3 Ystyr Sinema Ryw yw unrhyw adeilad a ddefnyddir i raddau arwyddocaol i arddangos lluniau sy'n symud, sy'n ymwneud yn bennaf â phortreadu gweithgarwch rhywiol, neu sy'n bwriadu ei ysgogi neu ei annog.

Ceir diffiniad llawn yn Atodiad A ar dudalen 9.

### **LLEOLIADAU ADLONIAANT RHYW**

#### **2.4 Adloniant perthnasol**

Mae angen trwyddedau i leoliadau adloniant rhyw ar gyfer "unrhyw adeilad lle darperir adloniant perthnasol o flaen cynulleidfa fyw er budd ariannol y trefnydd neu'r diddanwr".

Ceir diffiniad o "adloniant perthnasol" yn atodlen 3 (fel y'i diwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009), sef "unrhyw berfformiad byw neu arddangosiad byw o noethni sydd o'r fath natur fel ei bod yn rhesymol tybio, gan anwybyddu'r budd ariannol, ei fod yn cael ei ddarparu'n unig neu'n bennaf at ddiben ysgogi unrhyw aelod o gynulleidfa yn rhywiol (boed hynny drwy ddulliau llafar neu ddulliau eraill)." Gall cynulleidfa gynnwys un person yn unig, e.e. mewn bwth preifat.

Wrth benderfynu a yw adloniant yn "adloniant perthnasol" byddwn yn barnu pob achos yn ôl ei rinweddau, ond yn gyffredinol bydd yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i:-

- (i) ddawnsio côl
- (ii) dawnsio polyn
- (iii) dawnsio bwrdd
- (iv) sioeau stripio
- (v) sioeau sbïo
- (vi) sioeau rhyw byw

Mae'n bosibl y bydd angen trwydded ar gyfer adloniant i oedolion nad yw'n cael ei ystyried yn "adloniant perthnasol", dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Bydd angen awdurdodiad ar wahân dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig, fel gwerthu alcohol.

## Canllawiau Polisi

3.1 Yn unol ag adran 12(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, ni fydd yr Awdurdod yn dyfarnu trwydded:

- (i) i berson dan 18 oed
- (ii) i berson sydd wedi'i wahardd rhag gwneud cais oherwydd ei fod wedi'i gael yn euog o drosedd neu am unrhyw un o'r materion a gynhwysir ym mharagraff 17(3)
- (iii) i berson, ac eithrio corff corfforedig, nad yw'n byw yn y Deyrnas Unedig neu nad oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod o chwe mis yn union cyn y dyddiad pan wnaed y cais; neu
- (iv) i gorff corfforedig nad yw wedi'i ymgorffori yn y Deyrnas Unedig; neu
- (v) i berson y gwrthodwyd dyfarnu trwydded iddo, neu'i hadnewyddu, yn ystod y cyfnod o 12 mis yn union cyn y dyddiad pan wnaed y cais, oni bai y gwrthdrowyd y penderfyniad i wrthod yn sgil apêl.

3.2 Yn unol ag adran 12(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, dim ond am y rhesymau canlynol y gellir gwrthod cais am drwydded i fusnes rhyw:

- i) bod yr ymgeisydd yn anaddas i ddal y drwydded oherwydd ei fod wedi ei gael yn euog o drosedd neu am unrhyw reswm arall;
- ii) petai'r drwydded yn cael ei dyfarnu, ei hadnewyddu neu ei throsglwyddo, y byddai'r busnes y mae'n ymwneud ag ef yn cael ei reoli neu'n cael ei gynnal er budd person, ar wahân i'r ymgeisydd, y byddid yn gwrthod dyfarnu, adnewyddu neu drosglwyddo trwydded iddo petai'n gwneud y cais ei hun;
- iii) bod y nifer o fusnesau rhyw yn yr ardal berthnasol ar adeg gwneud y cais yn hafal i'r nifer y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ystyried yn addas i'r ardal honno neu'n fwy na'r nifer hwnnw;
- iv) y byddai dyfarnu neu adnewyddu'r drwydded yn anaddas o ystyried:
  - a) cymeriad yr ardal berthnasol; neu
  - b) y defnydd a wneir o unrhyw adeiladau yn y cyffiniau; neu
  - c) cynllun, cymeriad neu gyflwr yr adeiladau, cerbyd, llestr neu stondin y gwneir y cais yn eu cylch.

## **Gwybodaeth bellach**

### 3.3 Addasrwydd personau i ddal trwydded

Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi Awdurdod Lleol i wrthod trwydded oherwydd bod yr ymgeisydd (neu berson sy'n rheoli'r adeilad neu y mae'r busnes yn cael ei gynnal er ei fudd), yn anaddas ar sail euogfarnau blaenorol neu am unrhyw reswm arall. (Arweiniad cyffredinol yw hwn a byddai angen ystyried addasrwydd yr ymgeisydd yn fanwl mewn perthynas â phob cais unigol a dderbynnir. Byddai materion perthnasol yn cynnwys: Troseddau mewn perthynas â chyhoeddiadau anllad, gwaharddiad rhag dal trwydded busnes rhyw flaenorol, troseddau yn ymwneud ag amodau trwydded, gallu i reoli adeilad o'r fath). **Ac felly cynhelir gwiriad gan y DBS mewn perthynas â phob ymgeisydd unigol neu, yn achos cwmni neu bartneriaeth, pob un o gyfarwyddwyr neu bartneriaid y cwmni, ysgrifennydd y cwmni ac, ym mhob achos, pob person sy'n ymwneud â rheoli'r adeilad. Mae hyn yn berthnasol i bob cais a dderbynnir i ddyfarnu, amrywio neu drosglwyddo Trwydded.**

### 3.4 Ardal/cyffiniau/cyflwr adeiladau perthnasol

Gall Awdurdod Lleol wrthod cais i ddyfarnu neu adnewyddu trwydded ar y sail bod y cais yn cael ei ystyried yn amhriodol, o ran:-

- i) Cymeriad yr ardal berthnasol; ymhlith yr ystyriaethau byddai'r prif ddefnydd a wneir o'r ardal, e.e. masnachol, preswyl, amaethyddol, diwydiannol, a phriodolrwydd lleoli busnes rhyw yn y math hwnnw o ardal.
- ii) Y defnydd a wneir o unrhyw adeiladau yn y cyffiniau; ymhlith yr ystyriaethau byddai'r defnydd a wneir o adeiladau gerllaw ac a ydynt yn cael eu hystyried yn gydnaws â'r adeiladau arfaethedig a fyddai'n canolbwyntio ar ryw fel adloniant i oedolion.

Fel rheol gyffredinol rhagdybir gwrthod trwyddedu busnes rhyw os yw:

- a) yn agos at dai;
- b) yn agos at ysgolion, ardaloedd chwarae, canolfannau plant neu adeiladau eraill tebyg;
- c) mewn ardaloedd siopa teuluol;
- d) yn agos at addoldai;
- e) yn agos at adeiladau hanesyddol neu atyniadau ymwelwyr.

**At ddibenion y Ddeddf a gweithredu'r canllaw hwn, barn Cyngor Sir Caerfyrddin yw bod 'canolfannau ag iddynt ffryntiad masnachol' fel y'u diffinnir yng Nghynllun Unedol Sir Gaerfyrddin yn 'ardaloedd perthnasol'.**

**Mae'n rhaid i unrhyw gais, gan gynnwys y rhai ar gyfer 'canolfannau ag iddynt ffryntiad masnachol' gwrdd â'r meini prawf uchod (Gweler Atodiad D ar dudalen 17).**

#### iii) Amodau dal y drwydded

Gall Awdurdod Lleol ddyfarnu trwydded yn amodol ar delerau ac amodau a chyfyngiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol. Mae hyn yn galluogi defnyddio cryn dipyn o reolaeth ac yn ymwneud â rheoli'r adeilad, amseroedd agor yr adeilad, diogelwch rhag tân, ymddangosiad allanol, cyfyngiadau ar oedran, ac ati.

**Y Rhestr o Amodau Safonol ar Drwydded i Fusnes Rhyw fydd y rhai a gynhwysir yn Atodiad B ar dudalen 11.**

Bydd yr Awdurdod yn tynnu amodau o'r rhestr hon fel y bo'n briodol.

#### iv) Ystyriaethau perthnasol eraill:-

**Bydd pob cais unigol am drwydded i fusnes rhyw yn cael ei drafod yn ôl ei rinweddau penodol.**

### 3.5 Gweithdrefn Ymgeisio

#### (i) Ffurflen gais

Mae gennym ffurflen gais safonol, gan gynnwys hysbysiadau cyhoeddus, sydd ar gael ar gais gan ein tîm trwyddedu.

Rhaid i ymgeiswyr am drwydded i fusnes rhyw gwblhau a dychwelyd y ffurflen gais, ynghyd â'r canlynol:

- a) pum set o gynlluniau llawr yn ôl graddfa sy'n dangos pob mynedfa ac allanfa, unrhyw rannau a ddefnyddir ar y cyd ag unrhyw adeilad arall ac sy'n rhoi syniad o leoliad yr adeilad mewn perthynas â'r stryd;
- b) pum set o gynlluniau sy'n dangos bodolaeth a blaen yr adeilad, gan gynnwys yr holl arwyddion;
- c) pum set o gynlluniau (graddfa 1:500) sy'n dangos y busnes rhyw mewn perthynas ag adeiladau eraill o fewn 100 metr;
- d) pum set o gynlluniau (graddfa 150) sy'n dangos cynllun y busnes rhyw;
- e) y ffi gywir;
- f) yr holl wiriadau angenrheidiol gan y DBS.

Bydd copi wedi'i gwblhau o'r Hysbysiad ynghylch Cais yn cael:-

- a) Ei arddangos ar neu ar bwys yr adeilad mewn man lle mae'n gyfleus i'r cyhoedd ddarllen hysbysiadau, am ddau ddeg un (21) diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad pan gyflwynir y cais i'r Cyngor;
- b) Ei gyhoeddi, cyn pen saith (7) diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r Cyngor, mewn papur newyddion lleol sy'n cael ei ddosbarthu yn Sir Gaerfyrddin.
- c) Dylid anfon copi o'r ffurflenni cais, cyn pen saith (7) diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais i'r Cyngor, at Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, Heddlu Dyfed-Powys, Gorsaf Heddlu Rhydaman, Heol y Ffowndri, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 2LS.
- d) Dylid darparu manylion ynghylch cyhoeddi ac arddangos yr Hysbysiad drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen a ddarperir, ynghyd â chopi o'r Hysbysiad i'r Wasg, at Bennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel yn y cyfeiriad uchod cyn pen saith (7) diwrnod ar ôl ei gyhoeddi.

Pan wneir cais bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori â'r asiantaethau/adrannau Awdurdod Lleol canlynol:-

- a) Yr Heddlu;
- b) Yr Awdurdod Tân;
- c) Gwasanaethau Masnachol;
- d) Yr Adran Gynllunio;
- e) Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd;
- f) Safonau Masnach;
- g) Tai;
- h) Cynghorwyr Sir;
- i) Cynghorau Tref a Chymuned;
- j) Swyddog Mynediad y Cyngor.

#### (ii) Sylwadau

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ynghylch y cais eu cyflwyno'n ysgrifenedig i Bennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel, Cyngor Sir Gaerfyrddin,



3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE, cyn pen dau ddeg wyth (28) diwrnod ar ôl dyddiad y cais.

Bydd yr Awdurdod yn hysbysu ymgeiswyr ynghylch unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a bennwyd. Ni fydd yr Awdurdod, heb ganiatâd y person a gyflwynodd y gwrthwynebiad, yn datgelu ei (h)enw neu'i gyfeiriad/chyfeiriad i'r ymgeisydd ar yr adeg hon.

Lle bo angen gwrandawriad i benderfynu ynghylch cais, bydd copïau o lythyrau gwrthwynebu yn cael eu hatodi i'r adroddiad gyda chaniatâd yr unigolyn yn unig. Bydd unrhyw wrthwynebiad sy'n weddill yn cael ei grynhoi yn adroddiad y pwyllgor.

Pan dderbynnir yr ymatebion i'r ymgynghori, adroddir ynghylch y cais wrth y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn penderfynu.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn sylwadau am y materion a amlinellir ym mharagraff 3.2 y canllaw polisi hwn.

Bydd y Pwyllgor a'r ymgeiswyr yn cael gwybod am unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd a rhoddir cyfle i'r ymgeisydd annerch y Pwyllgor. Bydd cyfle hefyd i unrhyw wrthwynebwyr annerch y Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ynghylch y cais.

#### (iii) Hyd y Drwydded

Bydd trwyddedau i fusnesau rhyw fel arfer yn dod i ben ar ôl blwyddyn, ond gellir eu rhoi am gyfnod byrrach os bernir bod hynny'n briodol.

### **Adolygu Canllawiau Polisi**

3.6 Roedd y Cyngor wedi diweddarau'r ddogfen bolisi hon yn 2011 i adlewyrchu'r trefniadau newydd o ran trwyddedu a fabwysiadwyd i reoleiddio Lleoliadau Adloniant Rhyw. Gall y Cyngor adolygu cynnwys y Canllawiau Polisi hyn o bryd i'w gilydd.

### **Hepgoriadau**

3.7 Nid ydym yn credu y byddai'n briodol caniatáu hepgoriadau i'r gofynion i ddal trwydded ar gyfer busnes rhyw, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Rhaid cyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig a byddant yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu.

## Atodiad A - Diffiniadau

- 2A(1) Ystyr "Lleoliad Adloniant Rhyw" yw unrhyw adeilad lle darperir adloniant perthnasol o flaen cynulleidfa fyw er budd ariannol y trefnydd neu'r diddanwr.
- (2) Yn y paragraff hwn, ystyr "adloniant perthnasol" yw—
- (a) unrhyw berfformiad byw; neu
  - (b) unrhyw arddangosiad byw o noethni;  
sydd o'r fath natur fel ei bod yn rhesymol tybio, gan anwybyddu'r budd ariannol, ei fod yn cael ei ddarparu'n unig neu'n bennaf at ddiben ysgogi unrhyw aelod o gynulleidfa yn rhywiol (boed hynny drwy ddulliau llafar neu ddulliau eraill).
- (3) Nid yw'r canlynol yn lleoliadau adloniant rhyw at ddibenion yr Atodlen hon—
- (a) sinemâu rhyw a siopau rhyw;
  - (b) adeiladau lle mae darpariaeth adloniant perthnasol fel y crybwyllwyd yn is-baragraff (1) o fath, ar yr adeg dan sylw a chan gynnwys unrhyw adloniant perthnasol sy'n cael ei ddarparu ar yr adeg honno, fel—
    - (i) nad oes mwy nag un ar ddeg o achlysuron pan gafodd adloniant perthnasol ei ddarparu sy'n cwmpo (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar yr adeg honno;
    - (ii) nad yw unrhyw achlysur o'r fath wedi para am fwy na 24 awr; ac
    - (iii) nad yw unrhyw achlysur o'r fath wedi dechrau o fewn y cyfnod o un mis sy'n dechrau ar ddiwedd unrhyw achlysur blaenorol pan gafodd adloniant perthnasol ei ddarparu (pa un a yw'r achlysur blaenorol hwnnw yn cwmpo o fewn y cyfnod o 12 mis a grybwyllwyd yn is-baragraff (i) neu beidio);
  - (c) adeiladau a nodwyd neu a ddisgrifiwyd mewn gorchymyn a wnaed gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.
- 3(1) Ystyr 'Sinema Ryw' yw unrhyw adeilad, cerbyd, llestr neu stondin a ddefnyddir i raddau arwyddocaol i arddangos lluniau sy'n symud, pa bynnag ffordd y cânt eu cynhyrchu, sydd -
- (a) yn ymwneud yn bennaf â phortreadu'r canlynol, neu sy'n ymdrin neu'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol, neu sy'n bwriadu eu hysgogi neu eu hannog -
    - i) gweithgarwch rhywiol; neu
    - ii) weithredoedd o rym neu lesteirio sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol; neu
  - (b) yn ymwneud yn bennaf â phortreadu organau rhywiol neu swyddogaethau troethol neu ysgarthol, neu'n ymdrin neu'n ymwneud yn bennaf â hwy, ond nad yw'n cynnwys tŷ annedd nad yw'r cyhoedd yn cael mynediad iddo.
- 4(1) Ystyr 'Siop Ryw' yw unrhyw adeilad, cerbyd, llestr neu stondin a ddefnyddir ar gyfer busnes sy'n cynnwys i raddau arwyddocaol werthu, llogi, cyfnewid, benthyca, dangos neu arddangos -
- (a) eitemau rhyw; neu
  - (b) bethau eraill y bwriedir iddynt gael eu defnyddio mewn perthynas â neu at ddiben ysgogi neu annog -
    - i) gweithgarwch rhywiol; neu
    - ii) weithredoedd o rym neu lesteirio sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol.
- 4(3) Ystyr 'Eitem Ryw' yw -
- (a) unrhyw beth a wnaed i'w ddefnyddio mewn perthynas â'r canlynol, neu at ddiben eu hysgogi neu eu hannog -
    - i) gweithgarwch rhywiol; neu
    - ii) weithredoedd o rym neu lesteirio sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol; neu

(b) *unrhyw beth y mae is-baragraff (4) isod yn berthnasol iddo.*

4(4) *Mae'r is-baragraff hwn yn berthnasol -*

(a) *i unrhyw eitem sy'n cynnwys neu'n ymgorffori deunydd i'w ddarllen neu i edrych arno neu unrhyw beth y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio, naill ai ar ei ben ei hun neu fel un o set, i atgynhyrchu neu gynhyrchu unrhyw eitem o'r fath; ac*

(b) *i unrhyw recordiad o lun neu sain, sydd –*

i) *yn ymwneud yn bennaf â phortreadu gweithgarwch rhywiol neu weithredoedd o rym neu lesteirio sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, neu sy'n ymdrin neu'n ymwneud yn bennaf â hynny, neu sy'n bwriadu eu hysgogi neu eu hannog; neu*

ii) *sy'n ymwneud yn bennaf â phortreadu organau rhywiol neu swyddogaethau troethol neu ysgarthol, neu'n ymdrin neu'n ymwneud yn bennaf â hwy.*

## **Atodiad B - Amodau Safonol**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ymarfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 13 yn Atodlen 3 yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 a phob pŵer arall sy'n eu galluogi i'r perwyl hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

### **Diffiniadau**

1. (a) Yn y Rheoliadau hyn bydd i'r ymadroddion canlynol, sef "Busnes Rhyw" ("Sex Establishment"), "Siop Ryw" ("Sex Shop"), "Sinema Ryw" ("Sex Cinema"), "Eitem Ryw" ("Sex Article"), a "Llestr" ("Vessel") yr ystyr a neilltuwyd i bob un ohonynt gan Atodlen 3 yn y Ddeddf.
- (b) Yn y Rheoliadau hyn bydd i'r ymadroddion canlynol yr ystyron a neilltuwyd iddynt trwy hyn sef:
  - "y Ddeddf" - yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.
  - "y Cyngor" - yw Cyngor Sir Caerfyrddin.
  - "adeilad trwyddedig" - yw unrhyw adeilad, cerbyd, llestr neu stondin a drwyddedwyd dan y Ddeddf.
  - "Deiliad Trwydded" – yw person sy'n dal trwydded busnes rhyw.
  - "Trwydded Busnes Rhyw" - yw trwydded a ddyfarnwyd yn unol ag Atodlen 3 i'r Ddeddf.
  - "Cymeradwyaeth y Cyngor",  
neu  
"Gydsyniad y Cyngor" – yw cymeradwyaeth neu gydsyniad yr Awdurdod Trwyddedu.
  - "Cymeradwywyd" - yw cymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig.

### **Cyffredinol**

2. Os bydd gwrthdaro rhwng y Rheoliadau hyn ac unrhyw amodau arbennig a gynhwysir mewn trwydded yn ymwneud â Busnes Rhyw, gan yr amodau arbennig y bydd yr oruchafiaeth.
3. Ni fernir bod dyfarnu trwydded ar gyfer Busnes Rhyw yn cyfleu unrhyw gymeradwyaeth na chydsyniad y gall fod eu hangen dan unrhyw ddeddfiad, is-ddeddf, gorchymyn neu reoliad ar wahân i'r Drydedd Atodlen i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd.

### **Amseroedd Gweithredu**

4. Ac eithrio â chydsyniad blaenorol y Cyngor, ni fydd Busnes Rhyw yn agored i'r cyhoedd cyn 9am ac ni chaiff ei gadw yn agored ar ôl 8pm.
5. Ac eithrio â chydsyniad blaenorol y Cyngor, ni fydd Busnes Rhyw yn agored ar ddydd Sul, dydd Gwener y Groglith na Dydd Nadolig.

### **Cynnal a Rheoli Busnesau Rhyw**

6. Lle bo'r Trwyddedai yn gorff corfforedig neu'n gorff anghorfforedig, rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig am unrhyw newid cyfarwyddwr, ysgrifennydd cwmni neu berson arall sy'n gyfrifol am reoli'r corff i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn pedwar diwrnod ar ddeg a rhaid darparu'r manylion ysgrifenedig y bydd ar yr Awdurdod Trwyddedu eu heisiau ynghylch

unrhyw gyfarwyddwr, ysgrifennydd neu reolwr newydd o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i gael cais yn ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Trwyddedu.

7. Bydd y Trwyddedai neu ryw berson cyfrifol a enwebwyd gan y Trwyddedai yn ysgrifenedig at ddiben rheoli'r Busnes Rhyw yn absenoldeb y Trwyddedai ac y rhoddydwyd manylion amdano neu amdani yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu ac a gymeradwywyd ganddo yn ysgrifenedig yn gyfrifol am yr adeilad ac yn bresennol ynddo yr holl adeg y mae'n agored i'r cyhoedd.
8. Bydd enw'r person sy'n gyfrifol am reoli Busnes Rhyw, pa un ai'r Trwyddedai yw neu reolwr a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, yn cael ei ddangos yn amlwg yn y Busnes Rhyw trwy gydol y cyfnod y mae'r person hwnnw yn gyfrifol am ei gynnal.
9. Bydd y Trwyddedai yn cadw cofrestr ddyddiol lle caiff enw a chyfeiriad unrhyw berson a fydd yn gyfrifol am reoli'r Busnes Rhyw yn absenoldeb y Trwyddedai ac enwau a chyfeiriadau'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn y Busnes Rhyw eu cofnodi. Llenwir y gofrestr bob dydd o fewn tri deg munud i agor y Busnes Rhyw ar gyfer busnes a rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio gan yr Heddlu a chan swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.
10. Bydd y Trwyddedai yn cadw rheolaeth dros bob rhan o'r adeilad ac ni fydd yn gosod, yn trwyddedu nac yn gollwng gafael ar unrhyw ran o'r adeilad.
11. Bydd y Trwyddedai yn cadw rheolaeth dda yn yr adeilad.
12. Ni chaiff unrhyw berson dan 18 oed fynd i mewn i'r adeilad na chael ei gyflogi ym musnes y Busnes Rhyw.
13. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na chaiff y cyhoedd ddod i mewn i unrhyw ran neu rannau o'r adeilad ac eithrio'r rhai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.
14. Ni fydd y Trwyddedai nac unrhyw weithiwr cyflogedig nac unrhyw berson arall yn ceisio cael busnes i'r Busnes Rhyw trwy ddenu'n bersonol y tu allan i'r adeilad neu yn y cyffiniau.

## **Defnydd**

15. Caiff Siop Ryw ei rhedeg yn bennaf at ddiben manwerthu nwyddau.
16. Ni newidir y defnydd a wneir o unrhyw ran o'r adeilad o'r hyn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu hyd nes y ceir cydsyniad yr Awdurdod Trwyddedu i wneud hynny.
17. Ni wneir unrhyw newid o sinema ryw yn siop ryw neu o siop ryw yn sinema ryw heb gydsyniad yr Awdurdod Trwyddedu.
18. Ni chaiff Eitemau Rhyw na phethau eraill a fwriadwyd i'w defnyddio mewn perthynas ag ysgogi neu annog gweithgarwch rhywiol neu weithredoedd o rym neu lesteirio a gysylltir â gweithgarwch rhywiol eu dangos, eu gwerthu, eu llogi, eu cyfnewid, eu benthyca na'u harddangos mewn sinema ryw.

## **Y nwyddau sydd ar gael mewn Busnesau Rhyw**

19. Bydd nod clir ar bob Eitem Ryw ac ar bopeth arall sy'n cael ei arddangos i'w werthu, ei hurio, ei gyfnewid neu ei fenthyca o fewn Siop Ryw i ddangos i bersonau sydd y tu mewn i'r Siop Ryw pa brisiau sy'n cael eu codi am bob un ohonynt.
20. Bydd pob deunydd print, ffilm a ffilm fideo a gynigir i'w werthu, ei gyfnewid neu ei hurio yn cael ei ddangos yn agored ac ar gael i'w archwilio cyn ei brynu a bydd hysbysiad yn nodi hynny yn cael ei arddangos yn amlwg o fewn y Busnes Rhyw.
21. Ni chaiff unrhyw ffilm na ffilm fideo ei harddangos, ei gwerthu na'i chyflenwi oni fydd wedi ei phasio gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu awdurdod arall o'r fath sy'n cyflawni gwaith archwilio tebyg yr hysbysir y Trwyddedai yn ei gylch gan yr Awdurdod Trwyddedu, ac oni fydd yn dwyn tystysgrif yn nodi hynny ac oni fydd yn atgynhyrchiad wedi ei awdurdodi gan berchennog hawlfraint y ffilm neu'r ffilm fideo sy'n dwyn tystysgrif o'r fath.
22. Bydd y Trwyddedai yn arddangos yn ddi-dâl lenyddiaeth yn cynghori ar faterion cysylltiedig â phroblemau rhywiol a gyhoeddir gan y Gymdeithas Cynllunio Teulu a chan gyrff eraill tebyg a bennir, ac yn trefnu ei bod ar gael yn y Busnes Rhyw, ac yn arbennig unrhyw

ddeunydd o'r fath yn ymwneud ag AIDS a gaiff ei gyflenwi gan yr Awdurdod Trwyddedu. Dangosir llenyddiaeth o'r fath mewn man amlwg.

### **Ymddangosiad Allanol**

23. Ni chaiff unrhyw arddangosiad, hysbyseb, gair, model llythyren, arwydd, placard, bwrdd, hysbysiad, dyfais, cynrychioliad, llun, ysgrifen na deunydd tebyg ei arddangos y tu allan i'r adeilad heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Sir Caerfyrddin, ar wahân i'r arwyddion neu'r hysbysadau hynny y mae'n ofynnol eu harddangos dan yr amodau trwydded hyn.
24. Bydd unrhyw dâl a godir am fynd i mewn i'r adeilad yn cael ei ddangos yn glir a darllenadwy y tu allan i'r adeilad fel y gall pawb ei ddarllen cyn mynd i mewn i'r adeilad.
25. Bydd y fynedfa i'r adeilad wedi ei chynllunio a'i hadeiladu fel na fydd modd i bobl y tu allan i'r adeilad weld y tu mewn.
26. Rhaid cynllunio neu ddodrefnu pob ffenestr fel na all pobl y tu allan i'r adeilad weld y tu mewn.
27. Ni fydd unrhyw ffenestr yn cynnwys unrhyw arwydd, deunydd hysbysebu, nwyddau nac arddangosiad sy'n debygol o beri tramgwydd i bobl sy'n mynd heibio i'r ffenestr.

### **Cyflwr a Chynllun yr Adeilad**

28. Rhaid i oleuadau ym mhob rhan o'r adeilad fod wedi eu cynnau ac yn gweithio yn barhaus yr holl amser y bydd yr adeilad yn agored fel busnes rhyw.
29. Bydd yr adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr da.
30. Bydd pob rhan o'r adeilad yn cael ei chadw yn lân a glanwaith i foddhad y Cyngor.
31. Bydd drysau ac agoriadau sy'n arwain at rannau o'r adeilad nad ydynt yn agored i'r cyhoedd wedi eu nodi'n glir ag arwyddion 'staff yn unig' neu ryw arwydd arall sy'n atal y cyhoedd rhag defnyddio drysau neu agoriadau o'r fath.
32. Bydd dyfais wedi ei gosod ar ddrysau allanol y Busnes Rhyw fel eu bod yn cau ohonynt eu hunain a bydd y dyfeisiau hynny yn cael eu cadw fel eu bod yn gweithio'n dda.
33. Bydd y Trwyddedai yn darparu yn y cyfrwng mynediad i'r Busnes Rhyw ac o'i fewn ar gyfer anghenion aelodau anabl o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r busnes.
34. Rhaid i bob arddangosyn, arddangosiad a gweithgaredd tebyg fod yn agored ac ar gael i bob cwsmer heb dâl ar wahân i'r tâl mynediad cychwynnol i'r busnes ac ni fydd unrhyw gybau neu ystafelloedd unigol wedi eu cynllunio ar gyfer pobl unigol neu grwpiau o bobl lle gall arddangosiadau, arddangosfeydd, arddangosynnau neu weithgareddau eraill tebyg ddigwydd, oni fydd awdurdodiad/cydsyniad wedi ei roi yn gyntaf gan y Cyngor.
35. Bydd y Trwyddedai yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a gweithwyr cyflogedig.
36. Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gamau atal tân a diogelwch y bydd y Cyngor a/neu Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eu mynnu a bydd yn cynnal a chadw pob offer ymladd a diffodd tân ac yn trefnu eu bod ar gael i'w defnyddio.
37. Ni wneir unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau boed fewnol neu allanol a boed barhaol neu dros dro i adeiledd, goleuadau neu gynllun yr adeilad heb gymeradwyaeth flaenorol yr Awdurdod Trwyddedu.

## **Amodau Ychwanegol ar gyfer Lleoliadau Adloniant Rhyw**

1. Rhaid i'r Trwyddedai gadw rheolaeth bersonol dros yr adeilad bob amser neu enwebu'n ysgrifenedig unigolyn dros 18 oed sydd â'r awdurdod i reoli gweithgareddau yn yr adeilad.
2. Rhaid i unrhyw unigolyn a gyflogir yn yr adeilad i gynnal gweithgarwch diogelwch (o fewn yr ystyr yn rhan o baragraff 2(1)(a) yn atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001) fod wedi'i drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
3. Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod nifer addas o staff hyfforddedig yn cael eu cyflogi i oruchwylio tu mewn yr adeilad ("goruchwylwyr llawr") tra bod perfformiadau yn cael eu rhoi dan y drwydded hon.
4. Ni chaniateir i unrhyw blant dan 18 oed fynd i mewn i'r adeilad. Rhaid gofyn i gwsmeriaid y mae'n ymddangos eu bod dan 25 oed ddangos prawf ffotograffig o'u hoedran. Rhaid i'r Trwyddedai roi hysbysiadau amlwg wrth bob mynedfa i'r adeilad i'r perwyl hwn.
5. Bydd y perfformwyr yn 18 oed neu drosodd. Rhaid i'r Trwyddedai gadw cofnodion digonol o enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni'r perfformwyr, gan gynnwys gwiriadau adnabod digonol.
6. (a) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau nad ydynt hwy nac unrhyw berson sy'n hyrwyddo neu'n darparu adloniant yn yr adeilad (nac unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran unrhyw berson o'r fath) yn arddangos hysbysebion sy'n hyrwyddo'r adloniant neu'r adeilad mewn unrhyw fodd anghyfreithlon neu dramgwyddus.  
(b) Lle bo'r Cyngor wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Trwyddedai yn gwrthwynebu hysbyseb oherwydd, pe byddai'n cael ei harddangos, y byddai'n tramgwyddo yn erbyn chwaeth neu wedduster, neu'n debygol o annog neu achosi trosedd neu arwain at anhrefn neu dramgwyddo yn erbyn y teimlad cyhoeddus, ni fydd yr hysbyseb honno yn cael ei harddangos.  
(c) Ni fydd y Trwyddedai yn caniatáu i luniau neu ddelweddau eraill sy'n dangos neu'n awgrymu bod sioe stripio neu adloniant tebyg yn digwydd yn yr adeilad, ac a allai fod yn dramgwyddus, gael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.  
(d) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau i foddhad y Cyngor (gan gynnwys, lle bo angen, y caniatâd cynllunio neu reolaeth adeiladu angenrheidiol) na ellir gweld tu mewn yr adeilad o du allan yr adeilad, a bod y tu allan yn cael ei gynnal i safon foddhaol o barchusrwydd. Ni all dawnswyr fod yn weladwy o du allan yr adeilad ar unrhyw adeg.
7. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na fydd mwy o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn yr adeilad ar unrhyw adeg tra bod adloniant rhyw y mae'r drwydded hon yn ymwneud ag ef yn digwydd, lle bo'r Cyngor wedi pennu nifer yn ysgrifenedig oherwydd diogelwch cyhoeddus, niwsans cyhoeddus neu drosedd ac anhrefn.
8. Bydd y perfformwyr yn perfformio ar y llwyfan yn unig, i gwsmeriaid sy'n eistedd, neu yn y fath rannau eraill o'r adeilad trwyddedig ag y gellir cytuno arnynt yn ysgrifenedig gyda'r Cyngor.
9. Bydd y Trwyddedai yn rhoi polisi ar waith i sicrhau diogelwch y perfformwyr pan fyddant yn gadael yr adeilad ar ôl cyfnod o waith.
10. Rhaid i'r perfformwyr aros wedi'u gwisgo mewn mannau cyhoeddus ac yn yr holl fannau eraill, ac eithrio tra eu bod yn perfformio mewn mannau a bennwyd gan y Cyngor yn fannau lle gellir darparu adloniant rhyw.

11. Rhaid i'r perfformwyr wisgo'n llawn ar ddiwedd pob perfformiad.
12. Ni all y perfformwyr dderbyn unrhyw rif ffôn, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad neu fanylion cyswllt gan unrhyw gwsmer, ac eithrio ar ffurf cerdyn busnes y mae'n rhaid ei roi i'r Trwyddedai neu'i gynrychiolydd cyn gadael yr adeilad.
13. Ni ddylai'r perfformwyr fod ar eu pennau eu hunain yng nghwmni cwsmer, ac eithrio mewn man sy'n agored i'r cyhoedd o fewn yr adeilad.
14. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod nifer digonol o oruchwylwyr drws yn cael eu cyflogi y tu mewn i'r adeilad tra bod adloniant rhyw yn cael ei ddarparu, er mwyn goruchwyllo'r perfformwyr a'r cwsmeriaid.
15. Ni ddylai'r perfformwyr berfformio dawns fwrdd noeth oni bai fod hynny mewn man sydd o dan oruchwyliaeth neu o fewn pum metr i oruchwylwr llawr.
16. Ni ddylai'r perfformwyr fod yng nghwmni cwsmer, ac eithrio mewn man sy'n agored i'r cyhoedd o fewn yr adeilad (ac eithrio'r toiledau).
17. Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau'r canlynol yn ystod perfformiad dawns fwrdd:
  - a) rhaid bod cwsmeriaid yn eistedd yn gefnsyth yn erbyn cefn y bwth neu'r sedd, gyda'u dwylo wrth eu hochrau, cyn y gall dawnsiwr ddechrau dawns fwrdd;
  - b) rhaid i gwsmeriaid aros ar eu heistedd yn ystod holl berfformiad y ddawns;
  - c) at ddibenion atal yn unig, gall y perfformwyr ond cyffwrdd â chwsmer uwchben brest y cwsmer, gyda'u dwylo yn unig;
  - d) ni ddylai'r perfformwyr eistedd ar gwsmer, neu wneud hynny â'u coesau ar led;
  - e) ni ddylai'r perfformwyr osod eu traed ar y seddau.
18. Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau, yn ystod perfformiadau y mae'r Drwydded hon yn ymwneud â nhw:
  - a) na all y perfformwyr gyflawni unrhyw weithred sy'n dynwared yn amlwg unrhyw weithred rywiol;
  - b) na all y perfformwyr gyffwrdd â chwsmer yn fwriadol ar unrhyw adeg yn ystod y perfformiad, oni bai fod hynny'n gwbl ddamweiniol neu oherwydd trydydd parti;
  - c) na all y perfformwyr ddefnyddio iaith amhriodol, iaith awgrymog neu iaith sy'n rhywiol graffig ar unrhyw adeg;
  - d) ni ddylai'r perfformwyr gyffwrdd ag organau rhywiol neu fronau dawnsiwr arall yn fwriadol na chaniatáu i ddawnsiwr arall gyffwrdd â'u horganau rhywiol neu'u bronau nhw yn fwriadol;
  - e) ni ddylai'r perfformwyr gymryd rhan mewn sgysiau y gellid barnu eu bod yn weithredoedd o buteindra neu ddeisyfiad, hyd yn oed os nad oes gan y perfformiwr unrhyw fwriad o gyflawni'r weithred;
  - f) bod y perfformwyr ond yn perfformio dawns noeth neu hanner-noeth (o unrhyw fath) yn y manau a bennwyd gan y Cyngor yn y drwydded.
19. Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau, yn ystod perfformiadau y mae'r Drwydded hon yn ymwneud â nhw:
  - a) na all y cwsmeriaid ddawnsio ar unrhyw adeg ac eithrio mewn manau y mae'r Cyngor wedi'u dynodi'n benodol yn fannau ar wahân i'r manau ar gyfer adloniant rhyw.
  - b) rhaid i'r cwsmeriaid aros wedi'u gwisgo'n llawn bob amser.
20. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod teledu cylch cyfyng yn cael ei osod a'i gynnal i foddhad Heddlu Dyfed-Powys, a bod unrhyw ddelweddau:
  - a) yn cael eu cadw am gyfnod o 31 diwrnod o leiaf, a'u bod




b) ar gael ar gais i swyddog yr heddlu neu swyddog awdurdodedig y Cyngor.

Bydd y Trwyddedai yn darparu copiâu o unrhyw ddogfennau a fynnir yn rhesymol gan swyddog awdurdodedig y Cyngor, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Drwydded hon, cyn pen 14 diwrnod.

## **Atodiad C - Rhestr Ffioedd**

- |    |  |        |
|----|--|--------|
| 1. | Cais am <u>ddyfarnu</u> trwydded ar gyfer busnes rhyw    | £975   |
| 2. | Cais am <u>adnewyddu</u> trwydded ar gyfer busnes rhyw   | £750   |
| 3. | Cais am <u>drosglwyddo</u> trwydded ar gyfer busnes rhyw | £180   |
| 4. | Dogfen trwyddedu newydd ar gyfer busnes rhyw             | £21.00 |



Carmarthenshire County Council  
County Planning Department  
40 Spilman Street  
Carmarthen  
SA31 1LQ


Cyngor Sir Caerfyrddin  
Adran Cynllunio y Sir  
40 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
SA31 1LQ

Scale 1:3500





Template: P:\WGAPP\SYSTEM\PLATE\cas\_gallwcr

CAERFYRDDIN / CARMARTHEN  
APPENDIX D

Compiled by on 19 November 2002



**ALLWEDD / KEY**

-  CANOLFAN Y DRE / TOWN CENTRE - R1
-  GOPYNION CLEDDRAU ARAFLETHIEDIG RHELFORDD GWILI / PROPOSED GWILI RAILWAY OPERATIONAL TRACK REQUIREMENTS - T14
-  CRAIDD ADWERTHU / RETAIL CORE - R2
-  WYNEBAU SIOPAU / RETAIL FRONTAGE - R4

Additional Information: ~ Carmarthenshire County Council

Reproduced from the Ordnance Survey Map with the permission of the Controller of the HM Stationary Office, Crown Copyright Reserved-LA 0007L.


Athybwyd y Map Ordnans gyda chynllunio a Mawrddyn, Hafnifan y Gorn-LA 0007L.

**LLANELLI  
APPENDIX D**

Compiled by on 19 November 2002

Scale 1:3500

Cyngor Sir Caerfyrddin  
Adran Gyllunio y Sir  
40 Heol Spilman, Caerfyrddin  
SA31 1LQ  
Carmarthenshire County Council  
County Planning Department  
40 Spilman Street, Carmarthen  
SA31 1LQ




**RHYDAMAN / AMMANFORD  
APPENDIX D**





Compiled by on 20 November 2002

Cyngor Sir Caerfyrddin, Adran Gylluno y Sir  
40 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LQ

Carmarthenshire County Council  
County Planning Department  
40 Spilman Street, Carmarthen, SA31 1LQ



**ALLWEDD / KEY**

-  CANOLFAN Y DRE / TOWN CENTRE - R1
-  GOPYNION CLEDRAU ARFAETHEDIG RHEILFFORDD GWILI / PROPOSED GWILI RAILWAY OPERATIONAL TRACK REQUIREMENTS - T14
-  CRAIDD ADWERTHU / RETAIL CORE - R2
-  WYNEBAU SIOPAU / RETAIL FRONTAGE - R4

Mgynhyrchwyd o'r Map Ordnans gyda cheniad Gd Rheolwr Argraffdy el Mawrhydi, Hawlfraint y Goron-LA 09007L.  
 reproduced from the Ordnance Survey Map with the permission of the Controller of HM Stationary Office, Crown Copyright Reserved-LA 09007L.  
 additional information: ~ Carmarthenshire County Council      Template: P:\XGAPPS\TEMPLATE\cicc\_a4p.wor